

# Datblygu ymagwedd strategol at ddata gofal cymdeithasol yng Nghymru

Diweddariad Awst 2022 a'r camau nesaf



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**



# Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
Rhagair	2
Ein cyfle	3
Ein gweledigaeth ar gyfer data gofal cymdeithasol yng Nghymru	4
Ein hamcanion strategol	5
Sut y bydd ymagwedd strategol at ddata yn cefnogi canlyniadau gwell?	6
Beth fydd dull cydgysylltiedig o ymdrin â data yn ei ddarparu?	7
Datblygu ein hamcanion data strategol ledled Cymru	8
Adeiladu ar ein cryfderau	15
Beth yw'r prif feysydd parth i'w hystyried?	16
Beth sydd nesaf?	17

# Rhagair

Mae data'n llywio'r byd mewn ffordd na welwyd erioed o'r blaen,. O'n cwmpas ym mhobman, mae chwyldro gwybodaeth newydd wedi dechrau, wedi'i yrru gan ddatblygiadau mewn technoleg a chynnydd enfawr yn lefel y data sy'n cael ei gynhyrchu a'i storio. Yn sgil hyn, daw heriau a chyfrifoldebau newydd, yn enwedig o ran cynnal hyder y cyhoedd a chydymffurfio â disgwyliadau rheoleiddio yn y ffordd y caiff y wybodaeth hon ei defnyddio. Ond wrth i lefel y data sydd ar gael gynyddu, mae'n cynnig y cyfle i ni drawsnewid y ffordd rydym ni'n cyflwyno gwasanaethau allweddol.

Bellach, mae gennym gyfle, ynghyd â chyfrifoldeb, i ddiffinio'r rôl newydd y gall data ei chwarae, sut y gellir gwireddu buddion posibl a sut caiff y rhain eu cyfleu i'r cyhoedd.

Mae llawer iawn o drafodaeth eisoes wedi bod, rhywfaint ohono wedi'i ysgogi gan ein hadroddiad cam darganfod, [Ymagwedd strategol at ddata gofal cymdeithasol yng Nghymru](#). Roedd rhywfaint o waith rhagorol eisoes yn mynd rhagddo, yr ydym yn ei amlinellu yn yr adroddiad hwn. Yna, rydym yn amlinellu'r cyfeiriad ar gyfer strategaeth ddata yn y [Datganiad o Fwriad Strategol](#).

Megis dechrau ar daith hir y mae arferion data ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru o hyd. Mae'n daith y bydd arni angen cydweithredu a phartneriaeth, ymagwedd unedig a chynnydd dipyn wrth dipyn, yn seiliedig ar dystiolaeth.

Byddwn ni, ar y cyd â phartneriaid yn gosod data yn ganolog i ofal cymdeithasol yng Nghymru, gan drawsnewid y ffordd yr ydym yn ei gasglu, ei reoli, ei storio, ei ddadansoddi a'i ddefnyddio – gan gynnwys gwybodaeth o ffynonellau eraill megis iechyd. Ac ar hyd y ffordd, byddwn yn gwneud gwasanaethau'n fwy effeithiol fyth i'r cyhoedd.

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi ymgynghori â rhanddeiliaid ar y ffordd orau o ddatblygu'r strategaeth ddata. Mae'r ddogfen hon yn dod â'u hadborth a'u syniadau ynghyd, ynghyd â'r hyn sy'n digwydd nesaf.

**Sue Evans**  
Chief Executive, Social Care Wales



# Ein cyfle

**Ar draws y sector gofal cymdeithasol, mae staff gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol bob amser wedi chwarae rhan hanfodol yn cefnogi ein cymunedau. Yn sgil COVID-19, ni fu erioed cymaint o gydnabyddiaeth i bwysigrwydd y sector gofal cymdeitha**

Mae gan y sector gofal ehangach yng Nghymru, boed yn ofal cymdeithasol neu'n ofal iechyd, gyfle unigryw i newid y ffordd y mae'n harneisio grym data gofal cymdeithasol i fodloni orau anghenion pobl a chymunedau nawr ac i'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys galluogi pobl a chymunedau yn ddigidol i ategu'u dealltwriaeth o ddata a datblygu'u ffydd yn y ffordd y mae'r sector yn ei ddefnyd

Bydd angen i bob sefydliad dan sylw fuddsoddi mewn mewnwelediad i alluogi gwasanaethau i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau, yn gyfannol ac yn gydweithredol. Drwy fuddsoddi mewn data, gallwn adeiladu'r weledigaeth ddi-dor a ragwelir yn Cymru iachach a symud tuag at system sy'n fwy cydnaws ag anghenion unigolion a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.

Mae ein rhaglen waith ar y defnydd strategol o ddata mewn gofal cymdeithasol wedi cyflawni nifer o gynhyrchion hyd yn hyn:

- [Adroddiad darganfod](#) ar sefyllfa gyfredol data ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- [Datganiad o Fwriad Strategol](#), sy'n gweithredu fel y cyfrwng i ddod â sefydliadau sy'n darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru ynghyd fel cymuned i ystyried ein huchelgeisiau ar y cyd i ddefnyddio ein data yn fwy effeithiol er mwyn gwella profiadau a chanlyniadau i bobl Cymru.
- Cyfres o brosiectau alffa 'ennill cyflym' a archwiliodd rai o'r heriau mwyaf enbyd a amlygwyd gan yr adroddiad darganfod. yn
- Parhau â phrosiectau o'r cyfnod alffa, edrych yn fanylach ar sgiliau dadansoddi data yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, cyfleoedd ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, sefydlu safonau data mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru, effeithlonrwydd prosesau llywodraethu gwybodaeth ac ailddatblygu porth data gofal cymdeithasol Cymru.

**Am y tro cyntaf, rydym yn gweld sut y gall cydweithio fel un genedl ddatblygu'r ffordd y mae data gofal yn cael ei ddefnyddio. Gyda'n gilydd, mae gennym gyfle i wella'r ffordd yr ydym yn rheoli gwybodaeth ac yn gwneud penderfyniadau ym maes gofal, gan weithio law yn llaw â'n partneriaid ym maes iechyd i ddarparu gwasanaethau gwell a helpu pobl Cymru i fyw bywydau hapusach, iachach a mwy annibynnol.**

# Ein gweledigaeth ar gyfer data gofal cymdeithasol yng Nghymru

## Gofal personol, wedi'i gyd-gynllunio

Mae gofal a chymorth yn cael eu teilwra o amgylch yr unigolyn sy'n eu derbyn. Mae pobl yn deall ac yn ymddiried sut mae eu data'n cael ei ddefnyddio a gallant weld pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn a sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'r canlyniadau llesiant sydd bwysicaf iddynt. Nid oes angen iddynt ddarparu'r un wybodaeth dro ar ôl tro.

## Canlyniadau gwell, integredig

Gellir cysylltu data gofal cymdeithasol ag iechyd, tai, data'r sector gwirfoddol a mwy, gan greu un siwrnai ddi-dor ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a galluogi sefydliadau ar draws y system i deilwra eu cymorth i'r person cyfan.

## Ffocws ar atal

Bydd sefydliadau lleol a chenedlaethol yn gallu nodi tueddiadau a phatrymau, a chasglu a defnyddio tystiolaeth i roi cymorth i bobl a theuluoedd cyn i faterion waethygu. Gellir defnyddio tueddiadau i fodelu senarios y dyfodol, fel y gall gwasanaethau addasu i anghenion newidiol.

## Data cyson, penderfyniadau dibynadwy

Bydd data safonedig, cymaradwy o ansawdd uchel yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar bob lefel. Rydym yn deall beth sy'n digwydd ac ymhle, a pha mor dda y mae pethau'n gweithio ar draws y system, a fydd yn helpu i atal neu ganfod problemau.



## Gweithlu sy'n galluogi data

Mae pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn gwybod pa ddata i'w gasglu, sut i'w ddefnyddio i gael yr effaith fwyaf, a lle mae'n ddiogel ac yn dderbyniol i'w rannu. Mae data ein gweithlu yn ein helpu i ddeall y bobl sy'n darparu gofal a chymorth ac yn ein helpu i gynllunio. Mae sefydliadau'n defnyddio data ar y cyd â phrofiadau gweithwyr gofal proffesiynol, i ateb y cwestiynau sy'n bwysig.

## Gwneud penderfyniadau gwybodus wedi'i gefnogi gan y dystiolaeth

Mae sefydliadau lleol a chenedlaethol yn defnyddio'r data diweddaraf i ddatblygu achosion busnes sy'n seiliedig ar dystiolaeth, deall heriau a thargedau eu buddsoddiad mewn data yn ddoeth.

## Gallu ymchwil cryfach

Bydd setiau data'n cael eu hintegreiddio, eu rheoli a'u storio'n well ledled Cymru, gan alluogi ymchwilyr, rheoleiddwyr a llunwyr polisi i weld y 'darlun mwy'. Gallant wneud argymhellion gwybodus ar sut i wella gofal a chymorth ac anghenion yn y dyfodol.

## Perchnogaeth ac atebolrwydd diffiniedig

Gwyddom pa asiantaethau sy'n arwain ac yn cefnogi pob rhan o'r strategaeth ddata. Rydym wedi hysbysu arweinwyr i wneud penderfyniadau pwrpasol ynghylch sut rydym yn defnyddio data.

# Ein hamcanion strategol

Roedd y Datganiad o Fwriad Strategol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn nodi meysydd craidd lle dylai'r strategaeth ganolbwyntio ei heffaith:

- 1 Trafod gyda'r cyhoedd** i ddeall eu barn am y defnydd o ddata a chynyddu eu dealltwriaeth o ddata.
- 2 Cefnogi gwell penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau data** i gyflawni'r canlyniad gorau i bobl yng Nghymru
- 3 Adeiladu diwylliant data cryf a noddi arweinyddiaeth** sy'n gwerthfawrogi ac yn datgan yn glir werth data gofal cymdeithasol, ac yn defnyddio'r mewnwelediad y mae'n ei ddarparu i ysgogi arloesedd a gwneud penderfyniadau.
- 4 Darparu cymorth ar gyfer gwella'r defnydd o'n data mewn ymchwil a dadansoddi**, fel y gall pob sefydliad sydd â diddordeb mewn gofal gydweithio'n agosach, gan gynnal a rhannu dadansoddiadau fel ein bod i gyd yn deall beth all weithio.
- 5 Galluogi rhannu a chydweithio data diogel a moesegol.** Gallai hyn gynnwys nodi cyfleoedd rhannu, lleihau'r baich o ddarparu a chasglu data drwy annog ei ailddefnyddio, dileu rhwystrau i rannu, a mynd i'r afael â phryderon neu ofidiau. Gallai hefyd olygu cydweithio mewn gwahanol ffyrdd a gwneud yn siŵr bod y systemau a ddefnyddiwn yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.
- 6 Cynyddu a gwella'r data sydd ei angen arnom i nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn gofal cymdeithasol**, o ran pryd a sut mae pobl sydd â'r ystod lawn o nodweddion gwarchoddedig yn cael gofal a chymorth, a sicrhau bod gofal cymdeithasol yn lle diogel a theg i bawb weithio ynddo
- 7 Mabwysiadu'r un safonau ac egwyddorion dylunio** o ran sut rydym yn casglu, defnyddio a chynnal data. Os byddwn yn gwneud pethau mewn ffyrdd tebyg, bydd ein data yn fwy cyson, o ansawdd uwch, ac yn haws eu defnyddio a'u cymharu.
- 8 Gwella sgiliau data ar draws gofal cymdeithasol** drwy nodi ac annog y sgiliau sy'n bwysig a helpu pawb sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i ddefnyddio data a mathau eraill o dystiolaeth yn fwy effeithiol yn eu gwaith.

# Sut y bydd ymagwedd strategol at ddata yn cefnogi canlyniadau gwell?

Amlygodd yr Adroddiad Darganfod a'r Datganiad o Fwriad Strategol yr uchelgais a'r angen o fewn y sector gofal yng Nghymru i ddatblygu dull cydgysylltiedig, strategol o ymdrin â data gofal cymdeithasol. Bydd ymagwedd strategol yn darparu buddion technegol a data-benodol, megis systemau newydd a safonau data cyffredin. Bydd hefyd yn cefnogi gweithredu diwylliant cynhwysol ac ymagwedd arweinyddiaeth ar draws y sector.

Y nod yw cyflawni canlyniadau gwell, trwy ddarparu gwasanaethau effeithiol. Amlinellir pedwar maes budd-daliadau ategol isod.


## Gwell cydweithio

Gweithio gyda'n gilydd yn seiliedig ar werthoedd a rennir, gwybodaeth a buddion Mae'n galluogi darparu'r gwasanaethau cywir, yn y ffordd gywir ar yr adeg gywir i ddinasyddion. **Hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o adnoddau trwy wneud y gweithgareddau cywir ar gyfer y person sydd yn y canol.**

Mae hyn yn golygu bod sefydliadau yn gweithio ar draws ffiniau, megis tai, hamdden, iechyd ac addysg.

## Gweithlu cryfach

Bydd gwell mynediad a defnydd o ddata yn helpu sefydliadau i gynllunio eu gofynion gweithlu a'r sgiliau neu'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt. **Bydd hefyd yn galluogi'r gweithlu i ddatblygu'r sgiliau i ddefnyddio data a mewnwelediadau yn fwy effeithiol i'w helpu i helpu eraill.**



## Mewnwelediad cryfach

Bydd y penderfyniadau a wneir yn cael eu harwain gan dystiolaeth. Bydd hyn yn ysgogi gwell penderfyniadau gofal a chynllunio (ar lefel unigol a chyfunol) oherwydd gallwn ddeall a chynllunio ar gyfer anghenion y presennol a'r dyfodol. **Bydd gennym well dealltwriaeth o farn y cyhoedd am rannu data, a sut y gallai hynny ddylanwadu ar yr hyn a wnawn.**

## Gwelliant parhaus

Byddwn yn gweithio gyda phobl sydd â phrofiad o fyw, a'r rhai sy'n gweithio yn y system, **i wneud yn siŵr bod ein strategaeth yn adlewyrchu ac yn ymateb i'w blaenoriaethau ac yn adeiladu ar gryfderau.** Drwy weithio fel hyn gallwn adeiladu ar yr hyn sy'n dda, ac ymateb yn gyflym pan fydd angen i bethau newid.

# Beth fydd dull cydgysylltiedig o ymdrin â data yn ei ddarparu?



Mae data gwell yn well i bawb – mae'n golygu ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir ynghylch ble i roi adnoddau a'n bod yn cyfathrebu'n dda, gyda chyd-ddealltwriaeth. Mae hyn yn rhoi pobl yng nghanol popeth a wnawn. Mae manteision rhannu data yn wahanol, yn dibynnu ar bwy ydych chi. Isod mae rhai o safbwyntiau pobl yng Nghymru a sut y gallem ddisgwyl iddynt siarad am yr hyn sydd wedi newid unwaith y bydd ein dull strategol yn ei le.



Rwy'n gwybod â phwy i gysylltu am fy ngofal a gwn eu bod yn gwybod fy hanes trwy fy nghofnodion gan nad oes rhaid i mi ailadrodd fy stori drosodd a throsodd.

Os bydd rhywbeth yn newid, gallaf benderfynu pwy sy'n clywed fy stori. Gall fy ngofalwr gael mynediad at y wybodaeth yr wyf wedi dewis ei rhannu.

**Person â profiad byw**



Pan fyddaf yn dechrau cefnogi rhywun newydd, mae gennyf bellach fynediad at hanes gofal manylach, sy'n fy helpu i adeiladu ein perthynas. Mae systemau a data yn helpu, yn hytrach na rhwystro, pa mor hawdd yw hi i weithio gyda'r person rwy'n ei gefnogi, fel y gallwn gydweithio ar eu canlyniadau hirdymor. Rwy'n gwybod bod modd casglu beth sydd angen ei gofnodi a deall sut mae'n cael ei ddefnyddio.

**Ymarferydd**



Mae gen i fynediad at offer data gwell sy'n golygu y gallaf awtomeiddio tasgau mwy cyffredin. Rwyf bellach yn treulio mwy o amser yn rhoi cipolwg dyfnach ar dueddiadau ac eithriadau, gan ddatblygu a defnyddio tystiolaeth, a defnyddio data i gefnogi achosion busnes ar gyfer gwelliannau newid.

**Dadansoddwr data**



Mae'n llawer haws i mi ddeall ansawdd gofal cymdeithasol yng Nghymru, oherwydd gallaf ymddiried yn y data cynhwysfawr sydd ar gael i mi a gwn ei fod yn gymaradwy rhwng lleoedd a darparwyr. Mae hyn yn fy ngalluogi i ganolbwyntio ar gefnogi arloesedd a gwelliant, megis drwy ddatblygu a rhannu arfer gorau.

**Rheoleiddiwr**



Mae sefydliad arweiniol penodol ar gyfer data gofal cymdeithasol yng Nghymru, sy'n gweithredu fel brocer, arbenigwr a hyrwyddwr. Gallaf yn awr foddelu a rhagweld tueddiadau'r dyfodol a defnyddio hyn i helpu'r sector i gynllunio a darparu gofal di-dor, seiliedig ar le, sydd wedi'i alluogi'n ddigidol ac sy'n ymateb i anghenion pobl.

**Gwneuthurwr polisi**



Rwy'n teimlo'n hyderus yn y data y gallaf gael mynediad ato, ac mae'n edrych yn iawn – mae'n cyfateb i'r cryfderau a'r heriau sy'n ein hwynebu. Gallaf ddefnyddio'r mewnwelediadau hyn yn haws i gynllunio a chyllidebu'n effeithiol, ac rwyf bellach yn gwybod ble mae angen i mi fuddsoddi i gyflawni'r gwelliant mwyaf.

**Cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol**



# Datblygu ein hamcanion data strategol ledled Cymru

Nodwyd y gweithgareddau a'r achosion defnydd hyn drwy gydol ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid.

## 1. Ymgysylltu â'r cyhoedd a phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol

### Beth sydd wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill ?

- Yn Ennill Cyflym 3, Ymgysylltu â *Dinasyddion ac ymarferwyr*, fe wnaethom ddatblygu egwyddorion ar gyfer cyd-ddylunio ac ymgysylltu â phobl â phrofiad o fyw i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn ystyrlon drwy gydol y broses o ddatblygu a chyflawni'r strategaeth ddata **What will we do next?**

Byddwn yn gweithredu argymhellion Ennill Cyflym 3, trwy:

- Sefydlu gwaelodlin barn ac agweddau ynghylch sut y dylid defnyddio data iechyd a gofal. Byddwn yn gwneud hyn gyda'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Cael trafodaeth ystyrlon gyda dinasyddion yng Nghymru am sut rydym yn rhannu ac yn defnyddio data ar gyfer eu gofal a'u cymorth ac ar gyfer ymchwil. Byddwn yn defnyddio model 'ymgynghorol' (fel rheithgorau dinasyddion) lle mae amser a chefnogaeth i bobl ystyried mater yn ofalus a chyfrannu eu barn.
- Creu grŵp data gweithlu i geisio barn pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol
- Adeiladu llyfrgell arfer da ar gyfer ymgysylltu'n ystyrlon â dinasyddion.



# Datblygu ein hamcanion data strategol ledled Cymru


## 2. Gwneud penderfyniadau

### Beth sydd wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill ?

- Rydym wedi gwneud cytundeb ffurfiol a Digital Health and Care Wales i ddarparu adnoddau o'r rhaglen Adnoddau Data Genedlaethol ar gyfer ein gwaith ar ddata gofal cymdeithasol.

### Beth a wnawn nesaf?

- Byddwn yn sefydlu grŵp i lywio'r gwaith o greu a gweithredu polisi llywodraethu data a fframwaith safonau. Byddwn yn recriwtio Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth i gefnogi'r gwaith hwn.
- Byddwn yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i osod y blaenoriaethau ar gyfer gwella sut rydym yn gweithio gyda data gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn ei ddefnyddio.
- Byddwn yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd, rheolaidd am waith y strategaeth ddata fel ein bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y penderfyniadau a wneir.



# Datblygu ein hamcanion data strategol ledled Cymru

## 3. Diwylliant ac arweiniaeth

**Beth sydd wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill ?**

- Byddwn yn sefydlu grŵp uwch o bob rhan o ofal cymdeithasol gofal cymdeithasol yng Nghymru i arwain y strategaeth ddata.

**Beth a wnawn nesaf?**

Byddwn yn creu cymuned o bobl sy'n gweithio gyda data gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y gymuned yn cynnwys pobl â diddordebau technegol, dadansoddol a methodolegol mewn data a'r mewnwelediadau y gall eu darparu.

## 4. Ymchwil a dadansoddi

**Beth sydd wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill ?**

- Rydym wedi lansio fersiwn newydd o'r Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol, yn seiliedig ar anghenion ein defnyddwyr.
- Rydym wedi cydweithio ag Public Health Wales, Banc Data SAIL ac Digital Health and Care Wales i sefydlu a rhedeg y Labordy Data Rhwydwaith yng Nghymru.

**Beth a wnawn nesaf?**

- Byddwn yn gwella ymarferoldeb y Porth Data a'r mewnwelediad a'r dadansoddiad y mae'n ei ddarparu.
- Byddwn yn sicrhau bod mwy o ddata Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael drwy'r Porth Data.



# Datblygu ein hamcanion data strategol ledled Cymru

## 5. Rhannu data a chydweithio

### Beth sydd wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill ?

- Rydym yn mynychu nifer o grwpiau a fforymau allweddol sy'n ystyried y defnydd o ddata, i hyrwyddo anghenion data pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys y Bwrdd Rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol.
- Yn Quick win 4, Galluogi rhannu data gyda SAIL ac eraill, fe wnaethom archwilio sut y gellid defnyddio porth rhannu gwybodaeth i roi'r prosesau a'r hyder i sefydliadau rannu data.

### Beth a wnawn nesaf?

- Byddwn yn penodi Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer gofal cymdeithasol i symud y gwaith hwn yn ei flaen.
- Byddwn yn casglu gofynion defnyddwyr gofal cymdeithasol ar gyfer y porth rhannu gwybodaeth.



# Datblygu ein hamcanion data strategol ledled Cymru

## 6. Ansawdd data

### Beth sydd wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill ?

Yn Ennill cyflym 1, Safonau cyffredin ar gyfer data gofal cymdeithasol, fe wnaethom greu rhestr wirio ar gyfer sefydliadau i gefnogi rhannu data..

- Rydym wedi gwella ein dull o gasglu data am y gweithlu gofal cymdeithasol.
- Rydym wedi edrych ar ein data ein hunain a sut y gallem wella'r ffordd rydym yn ei ddefnyddio a'i gyhoeddi.

### Beth a wnawn nesaf?

- Byddwn yn defnyddio'r rhestr wirio ar gyfer safonau data cyffredin i gefnogi rhannu a safoni data.
- Byddwn yn gweithio gyda phobl i ddatblygu safonau data gofal cymdeithasol sy'n caniatáu i ddata gael ei symud a'i rannu rhwng sefydliadau.
- Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, darparwyr systemau a'r tîm technegol ardrethi annomestig i ddatblygu prosesau hylendid data i sicrhau bod yr holl ddata a drosglwyddir i'r NDR o'r ansawdd uchaf.



# Datblygu ein hamcanion data strategol ledled Cymru

## 7. Safonau a dyluniad

### Beth sydd wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill ?

- Rydym wedi ailgynllunio gwedd a theimlad ein Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol gyda'n defnyddwyr a'n harbenigwyr ym maes profiad defnyddwyr a dylunio rhyngwynebau.

### Beth a wnawn nesaf?

- Byddwn yn recriwtio Arweinydd Safonau Data ar gyfer gofal cymdeithasol.
- Byddwn yn diffinio'r hyn sy'n gymwys fel data gofal cymdeithasol i gefnogi mentrau safoni, ansawdd, rhannu, rhyngweithredu a chydweithio.
- Byddwn yn creu grŵp i nodi pa safonau data i'w datblygu gyntaf.
- Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y Rhaglen Adnoddau Data Genedlaethol i ddiffinio safonau rhyngweithredu data cydnaws ar gyfer data gofal cymdeithasol yn seiliedig ar safonau FHIR.



# Datblygu ein hamcanion data strategol ledled Cymru

## 8. Sgiliau Data

### Beth sydd wedi'i gwblhau neu sydd ar y gweill ?

- Yn Ennil cyflym 2, Datblygu rolau a chymwyseddau ar gyfer dadansoddwyr gofal cymdeithasol, fe wnaethom archwilio data ar weithwyr proffesiynol digidol sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio ffynonellau data fel disgrifiadau swydd, CVs a chynlluniau hyfforddi.
- Buom yn gweithio gyda Social Finance i gyflawni ymarfer cwmpasu ar gyfer datblygu fframwaith cymhwysedd dadansoddwyr data ar gyfer gofal cymdeithasol. Roedd yr ymarfer hwn yn cynnwys asesu galluedd a chapasiti presennol cymuned dadansoddwyr gofal cymdeithasol awdurdodau lleol yn ogystal ag ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

### Beth a wnawn nesaf?


- Rydym yn gweithio gyda Digital Health and Care Wales a KPMG i ddarparu hyfforddiant dadansoddwyr Sylfaen fel rhan o'r Rhaglen Ddysgu Dadansoddeg
- Byddwn yn cyflwyno'r prosiectau alffa (prawf) a nodwyd yn yr ymarfer cwmpasu sgiliau dadansoddwr data:
  - Llyfrgell adnoddau hyfforddi (2022/23) – cyfeirio, cynnal a hyrwyddo hyfforddiant ar sgiliau data
  - Disgrifiadau swydd (2022/23) – darparu llwyfan i awdurdodau lleol gael mynediad at ddisgrifiadau rôl dadansoddi data a'u rhannu
  - Teithiau data (2023/24) – datblygu mapiau yn dangos llif data o fewn awdurdodau lleol
  - Cymunedau ymarfer data (2023/24) – darparu mannau anffurfiol ar-lein ar gyfer sgwrsio a datrys problemau
- Byddwn yn adolygu'r defnydd o dechnoleg a chyflwyniad offer mwy modern a gallu dadansoddol uwch (gwyddor data, dysgu peiriannau, prosesu iaith naturiol a deallusrwydd artiffisial).



# Adeiladu ar ein cryfderau

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth werthuso ac asesu'r heriau y mae'r sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu.

Gosododd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyfeiriad tuag at un system iechyd a gofal ddi-dor i Gymru. Ers ei chyhoeddi, rydym wedi casglu darlun cliriach o'r mentrau data, ar lefel genedlaethol a lleol, sy'n digwydd ar draws Cymru. Bydd yn bwysig sicrhau bod yr holl fentrau hyn yn gyson â'i gilydd.



Rydym am ddarparu gwell strwythur trwy'r strategaeth ddata a'r map trywydd i ddwyn yr holl ddarnau hyn ynghyd, fel y gall pob un ohonom elwa o'r pethau gwych sy'n digwydd ar draws iechyd a gofal, a gweithio ynghyd i greu rhai newydd. Byddwn yn cyd-ddylunio'r ymagwedd â'n holl bartneriaid. Mae hyn yn golygu bod yn ddewr am ein nodau, sut rydym yn strwythuro'r rhaglen, a'r llywodraethu i sicrhau bod y rhaglen yn cyflawni.



# Beth yw'r prif feysydd parth i'w hystyried?

I wireddu uchelgais Cymru i greu sector gofal cymdeithasol wedi'i sbarduno gan ddata, mae'n debygol y bydd ar y rhaglen sy'n cefnogi'r strategaeth ddata angen nifer o gymwyseddau galluogi allweddol. Isod, amlinellir yr wyth maes parth yr ystyrir eu bod yn hanfodol i ddatgloi'r defnydd gorau o ddata.



## Pobl ac arweinyddiaeth

Hyrwyddwr data sy'n arwain ac yn cydlynu gweithgarwch cysylltiedig â data ar draws gofal cymdeithasol Cymru, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion strategol. Fe'i cefnogir gan dîm rhaglen proffesiynol ac mae'n adeiladu ar yr ymrwymiad cychwynnol a wnaed i'r strategaeth wrth arwain at lansio'r rhaglen.



## Dyluniad gwasanaeth a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr

Ymagwedd safonedig at reoli asedau data ar draws y sefydliad sy'n galluogi staff i ddod o hyd i eitemau data a chael at ddata perthnasol yn hawdd, gydag ymagwedd safonedig at reoli ansawdd data a chynnal metaddata.



## Data a llywodraethu gwybodaeth

Set safonedig o safonau a pholisïau cadarn sy'n cael eu datblygu a'u rhannu, gan amlinellu nodweddion allweddol data, sut dylid ei drafod a'i brosesu mewn ffordd ddiogel, sy'n cydymffurfio, a'i rannu mewn ffordd sy'n sicrhau'r budd mwyaf ac yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd am breifatrwydd a diogelwch.



## Rheoli arloesi

Ymagwedd ben i ben at wreiddio cynllunio prosiect, gwireddu buddion ac ymgysylltu mewnol wrth galon y ffordd mae'r rhaglen yn gweithio. Mae hyn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd syniadau newydd i ddelio â materion sy'n dod i'r amlwg.



## Pensaerniaeth technoleg

Mae pensaerniaeth yn cyflwyno'r offer a ddefnyddir i lywodraethu platfformau sy'n cael eu rhannu a'r ffordd y cedwir data yn ddiogel. Mae technoleg yn galluogi offer safonol a datblygedig i ddatblygu deallusrwydd a rheoli arloesiadau.



## Dadansoddeg ddatblygedig

Gallu technegol sy'n galluogi dadansoddiad o setiau data mawr a defnyddio technegau datblygedig, gan ganiatáu am arloesi a datblygiad systemau craidd yn ystwyth. Fel arfer, mae angen buddsoddiad sylweddol arno, ond mae hefyd yn defnyddio galluoedd TG presennol.



## Cyfathrebu ac ymgysylltu

Gallu cyfathrebu'n glir ac yn adeiladol gyda'r holl randdeiliaid, ond yn enwedig gyda dinasyddion a staff. Mae hyn yn cynnwys gwneud a gwireddu'r ymrwymiad i ymgysylltu'n adeiladol.



## Sgiliau a galluoedd

Diffinio a chyflawni'r tri maes sgiliau craidd: delweddu data yn gyffredinol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol ehangach, deallusrwydd busnes i'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach a sgiliau technegol a dadansoddiad i'r proffesiwn dadansoddeg gofal cymdeithasol.

Mae ein cynllun cyflawni yn cydnabod pwysigrwydd datblygu'r sgiliau hyn a meithrin gallu ar draws gofal cymdeithasol.



# Beth sydd nesaf?

Rydym wedi sefydlu y bydd y cyfle i drawsnewid y defnydd o ddata yn effeithio ar draws y system ac, yn bwysicaf oll, yn gwella profiad pobl sy'n derbyn gofal. Gallwn adeiladu ar sylfeini cadarn deddfwriaeth a pholisi, mentrau data ledled Cymru ac arfer da lleol.

Nid yw gwella'r ffordd y defnyddir data mewn gofal cymdeithasol yn rhywbeth y gellir ei drawsnewid dros nos. Bydd y daith i ddata gwell yn cymryd amser. Drwy weithio ar y cyd â Chymry a'r gweithlu, byddwn yn cael effaith yn y tymor byr, canolig a hir.

Mae ein gwaith parhaus ar y strategaeth ddata ar gyfer gofal cymdeithasol yn cwmpasu ystod amrywiol o brosiectau gydag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru. Mae'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau gwerthfawr ac yn lleihau achosion o ddyblygu ymdrech yn ddiangen.

Rydym eisoes yn dechrau gweld rhai o'r newidiadau diwylliannol sy'n codi pwysigrwydd data o fewn sefydliadau, ac rydym yn dechrau casglu rhywfaint o'r wybodaeth a'r dystiolaeth i lywio datblygiad data gwell a gwell sgiliau i ddefnyddio'r data hwnnw'n fwy effeithiol.

Mae cynnydd gwych wedi bod ar y rhaglen hyd yn hyn. Rhaid inni ddefnyddio'r holl fomentwm a gafwyd dros y 18 mis diwethaf i barhau i'n gyrru ymlaen.

# Cysylltwch â ni

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â [data@socialcare.wales](mailto:data@socialcare.wales)

Gofal Cymdeithasol Cymru  
Tŷ South Gate  
Wood Street  
Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444  
Minicom: 029 2078 0680  
E-bost: [gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru)  
[gofalcymdeithasol.cymru](http://gofalcymdeithasol.cymru)

© 2022 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd o flaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i'r cwrpas a ganiateir gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen.  
Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

